# Gwahoddiad i Dendro

**Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth bwysig am sut y gallwch roi dyfynbris ar gyfer y cyfle hwn. Darllenwch y gwahoddiad yn llawn a'i ddefnyddio wrth baratoi eich dyfynbris.**

**Ynglŷn â Lantra**

Mae Lantra yn bodoli i helpu ein diwydiannau i ddiwallu eu hanghenion sgiliau. Rydym yn gwneud hyn drwy weithio mewn partneriaeth i:

- Ddenu a chadw gweithlu amrywiol a chymwys yn y diwydiant
- Hyfforddi pobl i weithio'n ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn gynaliadwy
- Annog a chefnogi ymrwymiad i Ddysgu Gydol Oes.

Fel rhan o'n strategaeth, rydym wedi ymrwymo i adeiladu adnodd gwybodaeth gyrfaoedd effeithiol yn ogystal â helpu'r sector i ddeall ei anghenion sgiliau yn well. Casglu gwybodaeth ac ymchwil i greu canolbwynt arbenigedd sector yn raddol.

Ein nod yw i Lantra fod y lle i fynd am wybodaeth am yrfaoedd a sefydliadau allweddol o fewn y sector, gan greu 'cadwyn gyflenwi' yn ei thro ar gyfer newydd-ddyfodiaid a hyfforddiant yn y dyfodol.

Mae Lantra'n gweithredu o

Lantra House
Stoneleigh Park
Nr Coventry
Warwickshire, CV8 2LG

**Yr ymchwil**

Ym mis Tachwedd 2020, cadarnhaodd llywodraeth y DU ei bod wedi ymrwymo i blannu 30,000 ha bob blwyddyn erbyn 2025. Fel y gwelir yn Nhabl 1.2, byddai hyn yn gynnydd o 16,300 y

flwyddyn i gyd[1]. Yn ogystal, mae ymchwil y Comisiwn Coedwigaeth yn dangos y bydd y pren a fydd ar gael i'w gynaeafu erbyn 2031 yn cynyddu i 16,000,000 tunnell[2].

Tabl 1.1 – Ardaloedd coetir yn y DU, o Ffeithiau a Ffigurau Forest Research (https://www.forestresearch.gov.uk/research/forestry-facts-and-figures-2020/)

| AB/FLS/CNC/FS (000 ha) | Conwydd | Llydanddail | Cymysg |
|---|---|---|---|
| Lloegr | 151 | 64 | 215 |
| Cymru | 98 | 19 | 117 |
| Yr Alban | 426 | 41 | 467 |
| Gogledd Iwerddon | 55 | 7 | 62 |
| DU | 730 | 131 | 861 |
| | | | |
| Sector preifat (000 ha) | | | |
| Lloegr | 190 | 907 | 1 097 |
| Cymru | 54 | 138 | 192 |
| Yr Alban | 653 | 347 | 1 000 |
| Gogledd Iwerddon | 8 | 48 | 56 |
| DU | 905 | 1 440 | 2 345 |
| | | | |
| Pob coetir (000 ha) | | | |
| Lloegr | 340 | 971 | 1 311 |
| Cymru | 152 | 158 | 309 |
| Yr Alban | 1 079 | 388 | 1 467 |
| Gogledd Iwerddon | 64 | 55 | 118 |
| DU | 1 635 | 1 571 | 3 206 |

Tabl 1.2 – Coetir newydd (mewn 000ha) a grëwyd yn y DU rhwng 2019-20 (https://www.forestresearch.gov.uk/research/forestry-facts-and-figures-2020/)

| | Lloegr | | Cymru | | Yr Alban | | Gogledd Iwerddon | | DU | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Conwydd | Llydanddail | Conwydd | Llydanddail | Conwydd | Llydanddail | Conwydd | Llydanddail | Conwydd | Llydanddail | |
| 2016 | 0.0 | 0.8 | 0.0 | 0.1 | 1.9 | 2.7 | 0.0 | 0.1 | 1.9 | 3.7 | 5.6 |
| 2017 | 0.1 | 1.0 | 0.2 | 0.2 | 3.2 | 1.5 | 0.1 | 0.1 | 3.6 | 3.0 | 6.5 |
| 2018 | 0.2 | 1.3 | 0.1 | 0.1 | 4.7 | 2.5 | 0.1 | 0.1 | 5.1 | 3.9 | 9.0 |
| 2019 | 0.4 | 1.0 | 0.3 | 0.3 | 7.3 | 3.9 | 0.1 | 0.1 | 8.1 | 5.4 | 13.5 |
| 2020 | 0.2 | 2.1 | 0.0 | 0.0 | 7.4 | 3.6 | 0.1 | 0.1 | 7.8 | 5.9 | 13.7 |

[1] Gyda tharged yr Alban yn 18,000 ha y flwyddyn erbyn 2024
[2] https://www.confor.org.uk/media/246292/wood-fibre-availability-demand-report-2016-final.pdf

Nod yr ymchwil hon yw pennu'r cynnydd yn y gweithlu y byddai ei angen i gyrraedd y targed hwn ac ymestyn gwaith a wnaed eisoes yn yr Alban[3].

Tabl 1.3 – Plannu newydd yn ôl math o goedwig, perchnogaeth a blwyddyn. Mae'r ffigurau'n dangos miloedd o hectarau, Ffynhonnell: Comisiwn Coedwigaeth, Scottish Forestry, Forestry and Land Scotland, Cyfoeth Naturiol Cymru, Forest Service, cynlluniau grant,


(https://www.woodlandtrust.org.uk/press-centre/2020/06/government-planting-figures/)

| **Plannu newydd yn ôl math o goedwig** | Lloegr | Cymru | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | DU |
|---|---|---|---|---|---|
| Conwydd | 0.23 | 0.04 | 7.24 | 0.06 | 7.57 |
| Llydanddail | 2.10 | 0.04 | 3.61 | 0.14 | 5.89 |
| Pob plannu newydd | 2.33 | 0.08 | 10.86 | 0.20 | 13.46 |
| **Plannu newydd yn ôl perchnogaeth** | | | | | |
| FC/FLS/NRW/FS[1] | 0.09 | 0.00 | 0.27 | 0.05 | 0.41 |
| Sector preifat[2] | 2.24 | 0.08 | 10.59 | 0.15 | 13.05 |
| Pob plannu newydd | 2.33 | 0.08 | 10.86 | 0.20 | 13.46 |

Tabl 1.4 (https://www.confor.org.uk/media/246292/wood-fibre-availability-demand-report-2016-final.pdf)

[3] http://www.forestryscotland.com/about-us/sftt-leadership-group/current-focus-areas-/4-grow-the-skills-and-capacity-of-our-people

**Chart A: Forecast Potential Total Annual Average Availability of Virgin Roundwood 2013 – 2051 Showing Proportions of Forecast Coniferous and Broadleaved Roundwood Availability**




Source: Forestry Commission

Mae'r rhaglen waith sy'n cael ei datblygu i gefnogi'r cyflawni'r Gronfa Natur ar gyfer yr Hinsawdd (*Nature for Climate Fund*) wedi nodi fod angen cynnydd sylweddol yng ngweithlu sector coedwigaeth y DU er mwyn cefnogi uchelgeisiau'r llywodraeth.

Bydd y gwaith hwn o greu coetiroedd newydd, ochr yn ochr â rheoli coetiroedd presennol yn gynaliadwy a chynnal a chadw a rheoli coetiroedd a grëwyd o dan y rhaglen yn barhaus, yn gofyn am goedwigwyr, goruchwylwyr a gweithredwyr proffesiynol a galwedigaethau cysylltiedig newydd.

I'r perwyl hwn, nod y gwaith a dendrir amdano yma yw rhoi gwybodaeth feintiol ac ansoddol i'r sector a fydd yn ein galluogi i:

- ddeall gallu'r gweithlu presennol yn well o ran niferoedd, demograffeg, galwedigaethau, bylchau sgiliau, a phrinder, ar draws y gadwyn gyflenwi o blanhigfeydd i broseswyr coed
- deall yn well y niferoedd, y galwedigaethau a'r lefelau sgiliau sydd eu hangen ar weithlu'r dyfodol i gyflawni targedau creu a rheoli coetiroedd, a
- deall yn well y niferoedd, y galwedigaethau a'r lefelau sgiliau sy'n ofynnol ar draws y gadwyn cyflenwi coed yn y dyfodol i sicrhau mwy o ddefnydd o'r ffibr pren sydd ar gael
- deall darpariaeth addysg bellach ac addysg uwch coedwigaeth yn well.
- Nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth hyfforddiant (gan gynnwys darparwyr annibynnol, a mentrau fel Cyswllt Ffermio yng Nghymru)

Felly, mae arnom angen ymchwil a chynhyrchu adroddiad sy'n darparu:

- ffigurau meintiol ar y cyflenwad llafur presennol yn y sector coedwigaeth yng Nghymru a Lloegr (e.e. swyddi gwag wedi'u llenwi/heb eu llenwi)
- galw meintiol rhagamcanol am y deng mlynedd nesaf, gan ystyried tri amcanestyniad gwahanol o greu a rheoli coetiroedd (40%, 60%, 100% o'r targed) drwy'r Gronfa Natur ar gyfer yr Hinsawdd a'r rhai cyfatebol (e.e. Rhaglen Plannu Coed Lloegr yn Lloegr a Chreu Coetir Glastir a rhaglen y Goedwig Genedlaethol yng Nghymru), a gweithgarwch parhaus fel ailstocio
- gwybodaeth ansoddol am fylchau sgiliau a phrinder yn y gweithlu presennol, a maint a natur gyfatebol busnesau sydd â'r bylchau
- gwybodaeth am y rolau galwedigaethol allweddol sydd eu hangen i sicrhau cynnydd mewn creu a rheoli coetiroedd yn ogystal â gweithgarwch parhaus
- gwybodaeth feintiol ac ansoddol am y ddarpariaeth addysg bellach ac addysg uwch bresennol ar gyfer coedwigaeth yng Nghymru a Lloegr
- gwybodaeth feintiol ac ansoddol am y ddarpariaeth hyfforddiant ymarferol gyfredol (e.e. tystysgrifau cymhwysedd, cyrsiau byr), gan ddarparwyr colegau ac annibynnol

Er mwyn caniatáu ymyriadau sy'n briodol i'r gwahanol weinyddiaethau yn y gwledydd datganoledig, lle y bo'n bosibl, dylid dadansoddi'r uchod hefyd yn ôl:

- gwlad
- demograffeg
- is-sectorau – gan gynnwys, ond nid o reidrwydd n gyfyngedig i: gyflenwad hadau/meithrinfeydd coed; cynllunio creu/rheoli coetiroedd; sefydlu a chynnal a chadw; cynaeafu; rheoli bywyd gwyllt; cludo nwyddau; prosesu; a galwedigaethau ategol fel y bo'n briodol, e.e. ffensio
- sectorau cysylltiedig fel y bo'n briodol – er enghraifft rheolwyr ystadau, ffermwyr, ciperiaid a pherchnogion coetiroedd
- rolau galwedigaethol
- cyfradd gadael rhagamcanol (e.e. ymddeolwyr, trosiant y gweithlu)

**Dull**

Rhagwelir y bydd pedair cydran i'r prosiect hwn – Ymgynghoriad; Ymchwil; Adroddiad; Cyflwyniad.

Ymgynghoriad - Rydym yn ei gwneud yn ofynnol cynnal ymarfer ymgynghori ymysg busnesau coedwigaeth a rhanddeiliaid allweddol eraill (darperir rhestr), i benderfynu ar eu barn ar fylchau

a phrinder sgiliau, unrhyw rwystrau i recriwtio y maent yn eu hwynebu a'u gofynion gweithlu rhagamcanol. Bydd angen i ymchwilwyr ddilyn egwyddorion gofynion safonau'r Gymraeg e.e. caniatáu i ymatebwyr ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau yn ddwyieithog ynghyd â'r adroddiad terfynol. Felly, bydd angen cynnal arolygon yn Gymraeg ac yn Saesneg, ond darperir cymorth gan Lantra a bydd cyfieithiad yr adroddiad yn cael ei gynnal ar ôl cwblhau'r ymchwil, unwaith eto gan Lantra.

Disgwyliwn i nifer sylweddol o gyfweliadau â rhanddeiliaid gael eu cynnal dros amrywiaeth o sectorau. Darperir rhestr o gysylltiadau awgrymedig fel man cychwyn, ond bydd disgwyl i'r contractwr driongli ymatebion a cheisio cyfweleion ychwanegol yn ôl y gofyn.

Ymchwil – Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr gynnal ymarfer ymchwil o wybodaeth bresennol am y farchnad lafur sy'n berthnasol i'r diwydiant coedwigaeth. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn ymchwil ddesg/ yn seiliedig ar gyfweliadau, a byddwn yn sicrhau bod ymchwil flaenorol berthnasol ar gael.

Adroddiad – Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr lunio adroddiad ysgrifenedig (gan gynnwys dulliau ymchwil, cwestiynau a ofynnwyd, ymgyngoreion/ymatebion) ac argymhellion. Bydd yr argymhellion ar ffurf gofyniad gweithlu ar gyfer tri senario - cyflawni targedau uchel / canolig / isel creu coetiroedd, a chymhareb bosibl o goedwigwr / goruchwyliwr / gweithredwyr proffesiynol sy'n ofynnol.
Cyflwyniad – Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr fynychu cyfarfodydd diweddaru rheolaidd (gall y rhain fod yn rhithwir) gyda'n cynrychiolwyr fel y bo'n briodol, gan ddechrau gyda chyfarfod cyn dechrau ar 17 Mai 2021, am 1.30pm (drwy Teams). Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr gyflwyno ei ganfyddiadau i'n cynrychiolwyr (ar ffurf MS Powerpoint neu fformat tebyg) mewn cyfarfod adroddiad rhagarweiniol i'w gynnal dim hwyrach na 28 Mehefin 2021, a chyflwyno adroddiad, argymhellion a chyflwyniad terfynol mewn cyfarfod adroddiad terfynol erbyn 16 Gorffennaf 2021 fan hwyrach.

Bydd y contractwr llwyddiannus yn cynnal yr ymarfer ymgynghori, y prosiect ymchwil, yn ysgrifennu adroddiadau a chyflwyniad, a bydd yn gyfrifol am reoli ei weithgarwch ei hun. Byddwn yn rhoi cyngor ac arweiniad i'r contractwr drwy Grŵp Llywio o'n cynrychiolwyr, fydd yn cynnwys aelodau o Lantra, Confor, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, Sefydliad Coedwigwyr Siartredig a staff y Comisiwn Coedwigaeth y bydd y contractwr yn adrodd iddynt. Rhagwelir mai uchafswm gwerth y contract hwn fydd £30,000 (gan gynnwys TAW). Gwneir taliad fesul cam, gyda £10,000 yn cael ei dalu ar ddechrau'r contract (14 Mai 2021) £10,000 ar ôl derbyn yr adroddiad interim, a £10,000 ar ôl cwblhau'r adroddiad a'r cyflwyniad terfynol.

Bydd y Grŵp Llywio yn darparu rhestr o randdeiliaid allweddol a gwybodaeth berthnasol arall a bydd yn darparu rheolwr contract penodol. Bydd y contractwr yn gyfrifol am gadw at y canllawiau iechyd a diogelwch priodol, gan gynnwys y gofynion gwaith Covid-19 diogel diweddaraf, cydymffurfiaeth â GDPR, ac ar gyfer parchu cyfrinachedd masnachol pan ofynnir am hynny.

Rhagwelir, o dan yr amgylchiadau presennol, oherwydd cyfyngiadau Covid-19, y bydd y contractwr yn cyflawni'r gweithgareddau a amlinellir uchod o bell. Lle mae angen ymweliadau/cyfarfodydd corfforol, rhaid i'r contractwr sicrhau ei fod yn cydymffurfio â rheoliadau'r Llywodraeth a phrotocolau sefydliadol Covid-ddiogel fel y bo'n briodol.

**Dyddiadau pwysig**

Mae'r tabl isod yn nodi'r dyddiadau allweddol y dylech fod yn ymwybodol ohonynt ar gyfer y dyfynbris hwn. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw newidiadau i'r dyddiadau hyn. Rydym yn cadw'r hawl i ganslo neu dynnu'n ôl o'r broses ddyfynnbris ar unrhyw adeg.

| *Beth sy'n digwydd* | *Pryd* |
|---|---|
| Sesiwn holi ac ateb ar-lein | 20 Ebrill 2021 |
| Dyddiad cau ar gyfer eich cwestiynau | 21 Ebrill 2021 |
| Dyddiad cau ac amser ar gyfer ffurflenni dyfynbris | 5pm 28 Ebrill 2021 |
| Cyhoeddi canlyniada | 7 Mai 2021 |
| Dyddiad dechrau disgwyliedig y contract | 14 Mai 2021 |

**Eich cwestiynau**

Fe'ch anogir i ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych am y contract a'r broses o gynnig dyfynbris. Mae angen e-bostio pob cwestiwn at Liz Barron-Majerik, ar: Liz.Barron-Majerik@lantra.co.uk.
Anfonwch eich cwestiynau erbyn y dyddiad cau a roddir yn y tabl dyddiadau pwysig uchod.

Rydym yn anfon y cwestiynau a gawsom a'n hatebion i bawb sydd wedi cael gwahoddiad i gynnig dyfynbris. Ni fyddwn yn nodi pwy sydd wedi gofyn y cwestiwn. Nodwch yn glir unrhyw gwestiynau masnachol sensitif nad ydych am i ni eu rhannu.

**Y Contract**

Bydd y contract terfynol gyda'r contractwr llwyddiannus yn ddarostyngedig i'r fersiwn ddiweddaraf o'n Telerau ac amodau. Ni dderbynnir Telerau ac amodau'r contractwr llwyddiannus ei hun.

**Cyfarwyddiadau cyffredinol**

- Bydd eich dyfynbris terfynol a'r holl ddogfennau cysylltiedig yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- Rhaid i bob pris fod mewn sterling a heb fod yn cynnwys TAW.
- Nid oes rhaid inni dderbyn y dyfynbris isaf, na rhan, na'r cyfan o unrhyw ddyfynbris.
- Rhaid i'r holl wybodaeth a roddir i chi, gennym ni, gael ei thrin yn gyfrinachol a pheidio â'i datgelu i drydydd partïon.
- Rhaid i holl fanylion eich dyfynbris, gan gynnwys prisiau a chyfraddau, fod yn ddilys i ni eu derbyn am gyfnod o 30 diwrnod.
- Unwaith y bydd y contract wedi'i ddyfarnu, ni fydd unrhyw gostau ychwanegol yr eir iddynt nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y dyfyniad yn cael eu derbyn i'w talu.
- Bydd cynnig cymhelliad o unrhyw fath mewn perthynas â chael y contract hwn neu unrhyw gontract arall gyda Lantra yn anghymhwyso eich dyfyniad rhag cael ei ystyried a gall fod yn drosedd.

**Beth i'w anfon atom a sut y caiff ei sgorio**

Anfonwch eich dyfynbris wedi'i gwblhau at:
Dr Liz Barron-Majerik
Liz Barron-Majerik@lantra.co.uk

Yn eich dyfynbris dylech ddarparu'r wybodaeth ganlynol. Dangosir sut y byddwn yn sgorio pob rhan yn y tabl isod.

- Rhowch fanylion sgiliau, gwybodaeth a chymwysterau'r bobl allweddol a fydd yn gweithio ar y contract hwn.
- Rhowch ragor o wybodaeth am brofiad perthnasol y bobl allweddol a fydd yn gweithio ar y contract hwn.
- Disgrifiwch sut y byddwch yn cyflawni cyflawniadau a cherrig milltir allweddol y contract hwn.
- Rhannwch eich dyfynbris yn gyfraddau dyddiol ar gyfer pob rôl. Bydd cyfanswm eich pris yn cael ei sgorio.

| *Gofynnol* | *Pwysoliad* | *Sgôr* | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *%* | 5 Ymateb rhagorol - Mae'r ateb yn nodi datrysiad cadarn ac, yn ogystal, yn darparu gwerth ychwanegol a/neu elfennau o'r datrysiad sy'n uwch na'r gofynion. Datrysiad risg isel/dim risg. | 4 Ateb ymateb cwbl foddhaol / da iawn sy'n nodi datrysiad cadarn sy'n cwrdd â'r gofynion yn llawn, gyda manylion llawn yn cael eu darparu i gefnogi'r datrysiad. Datrysiad risg isel/dim risg. | 3 Ymateb boddhaol a derbyniol - Mae'r Ateb yn nodi datrysiad sy'n cwrdd â'r gofynion i raddau helaeth, gyda rhywfaint o fanylion yn cael eu darparu i gefnogi'r datrysiad; mân amheuon neu wendid mewn ychydig feysydd. Datrysiad risg canolig, derbyniol. | *2 Ymateb rhannol dderbyniol - Nid yw'r ateb yn nodi datrysiad sy'n bodloni'r gofynion yn llawn. Gall gynrychioli datrysiad risg uchel.* | 1 Ymateb anfoddhaol - Mae'r ateb yn methu â nodi datrysiad sy'n bodloni'r gofynion mewn sawl maes arwyddocaol. Byddai'n cynrychioli datrysiad risg uchel iawn. | 0 Dim ymateb (diffyg cydymffurfio llwyr) Ni ddarparwyd ymateb neu darparwyd gwybodaeth annigonol. |
| Rhowch fanylion sgiliau, gwybodaeth a chymwysterau'r bobl allweddol a fydd yn gweithio ar y contract hwn. | *25* | | | | | | |
| Rhowch ragor o wybodaeth am brofiad perthnasol y bobl allweddol a fydd yn gweithio ar y contract hwn. | *25* | | | | | | |
| Disgrifiwch sut y byddwch yn cyflawni cyflawniadau a cherrig milltir allweddol y contract hwn. | *30* | | | | | | |
| Rhannwch eich dyfynbris yn gyfraddau dyddiol ar gyfer pob rôl. Bydd cyfanswm eich pris yn cael ei sgorio. | *20* | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| Sylwer, y dyfyniad isaf fydd yn cael y sgôr uchaf sydd ar gael ar gyfer yr adran hon. Bydd hwn yn sgôr o 5 a fydd wedyn yn cael ei luosi â'r pwysoliad. Bydd yr holl ddyfynbrisiau eraill yn cael eu rhannu â'r pris isaf ac yna'n cael eu lluosi â'r marc uchaf sydd ar gael cyn cael eu pwysoli. | | | | | | | |

**Fformat**

Dylid cyflwyno eich cynnig ar ffurf Word neu PDF ac ni ddylai fod yn fwy na 2,000 o eiriau.

**Ymateb**

Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am y penderfyniad erbyn 7 Mai 2021

**Apêl**

Mae gan ymgeiswyr yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad, a dylid gwneud hyn drwy anfon e-bost at Liz.Barron-Majerik@lantra.co.uk, dim llai na thri diwrnod gwaith ar ôl i'r ymateb gael ei dderbyn (12 Mai 2021).

**Cyfathrebu**

Oherwydd yr uchod, ni ddylid gwneud unrhyw gyfathrebu o ran dyfarnu'r contract nes bod Lantra wedi rhoi gwybod.